# AR GYFER RHIENI PLANT PRESENNOL BLWYDDYN 5 .

**BYDD ANGEN I CHI WNEUD CAIS AM LE I'CH PLENTYN MEWN YSGOL UWCHRADD YN YSTOD EI DYMOR/EI THYMOR CYNTAF YM MLWYDDYN 6.**

**DROS YR HAF, DYLECH DDECHRAU YSTYRIED PA YSGOLION UWCHRADD YR HOFFECH WNEUD CAIS AMDANYNT.**

Eich cyfrifoldeb chi yw cyflwyno cais eich plentyn mewn pryd. Dechreuwch ymchwilio'n gynnar a byddwch yn barod.

Rydym yn argymell eich bod yn nodi 5 dewis (neu 3 os ydych yn gwneud cais am addysg cyfrwng Cymraeg yn unig). Mae gwybodaeth am yr ysgolion ar gael ar wefan y Cygnor www.caerdydd.gov.uk/derbyniadauuwchradd

## SUT MAE'R BROSES YMGEISIO'N GWEITHIO

- Er mwyn i'ch plentyn gael lle mewn ysgol uwchradd, **RHAID** i chi gyflwyno cais.
- Rhaid i geisiadau gael eu gwneud ar-lein yn www.caerdydd.gov.uk/derbynuwchradd - gall eich Hyb lleol eich helpu gyda'r broses hon os hoffech ragor o arweiniad.
- Gallwch wneud cais o **ddydd Llun 23 Medi 2024 tan ddydd Llun 18 Tachwedd 2024** (y 'dyddiad cau').
- Mae modd lanlwytho dogfennau ategol yr hoffech iddynt gael eu hystyried yn ystod eich cais.
- Os ydych am i'ch cais gael ei ystyried yn ôl meini prawf sy'n cynnwys sail feddygol, gymdeithasol neu fod wedi derbyn gofal yn flaenorol, mae'n hollbwysig eich bod yn darparu dogfennau ategol cyn y dyddiad cau.

OS GWNEWCH GAIS AR ÔL Y DYDDIAD CAU, EFALLAI Y BYDD YR YSGOLION RYDYCH YN EU FFAFRIO EISOES YN LLAWN.

## OEDDECH CHI'N GWYBOD?

- **Nid** yw byw yn y dalgylch, byw yn agos i'r ysgol, bod â brawd neu chwaer hŷn yn yr ysgol, neu gymryd rhan mewn gweithgareddau pontio yn yr ysgol **yn gwarantu lle.**
- Nid yw dewis un ysgol yn unig ar y ffurflen yn ei gwneud yn fwy tebygol y cewch le yn yr ysgol honno.
- Mae modd dysgu mwy am ysgol drwy fynd i'w nosweithiau agored, trefnu ymweliad â hi, edrych ar ei gwefan a darllen adroddiadau Estyn amdani.
- Nid oes gwarant y cewch le yn eich dewis cyntaf.

## GWYBODAETH BWYSIG Y DYLECH EI HYSTYRIED

Dylech chi ddarllen a deall y meini prawf uchod. Rydym yn defnyddio'r un meini prawf ar gyfer pob ysgol uwchradd gymunedol ond mae ysgolion Sefydledig a Ffydd yn defnyddio eu meini prawf eu hunain. Rydym yn dilyn y meini prawf i benderfynu i bwy y gallwn gynnig lleoedd pan fo mwy o geisiadau nag y mae lleoedd mewn ysgol. Mae manylion am y rhain yn y llawlyfr Gwybodaeth i Rieni – gellir lawrlwytho hwn yn www.caerdydd.gov.uk/derbynuwchradd.

**Os ydych yn gwneud cais i Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Esgob Llandaf, Ysgol Uwchradd Gatholig Corpus Christi, Ysgol Uwchradd Gatholig Mair Ddihalog neu Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Teilo Sant, bydd angen i chi ymgeisio ar-lein A chwblhau a dychwelyd eu ffurflen ategol. Ar gyfer Ysgol Ffydd Illtud Sant yn ardal Caerdydd, bydd angen i chi ymgeisio'n uniongyrchol i'r ysgol.**

Mae pob ysgol uwchradd yng Nghaerdydd fel arfer yn cynnal nosweithiau agored i chi ymweld â nhw. Nid yw rhai ysgolion wedi cadarnhau dyddiadau eto ar gyfer tymor hydref 2022. Rydym yn argymell eich bod yn cysylltu â'r ysgol yn uniongyrchol os nad yw dyddiad wedi'i restru ar gefn y llythyr hwn. Bydd staff yr ysgol yn gallu eich cynghori ar eu trefniadau.

---

## BETH OS YW FY MHLENTYN WEDI CAEL EI NODI AG ADY A BOD GANDDO GYNLLUN DATBLYGU UNIGOL (CDU)?

Mae'r system ADY yn adlewyrchu'r egwyddor y bydd addysg leol prif ffrwd er budd gorau'r plentyn yn y rhan fwyaf o achosion. Felly, mae'n bwysig bod cais am le prif ffrwd yn cael ei wneud ar gyfer dysgwyr ag CDU, a gynhelir gan yr ysgol neu'r awdurdod lleol.

Os yw'ch plentyn mewn darpariaeth arbenigol ar hyn o bryd (Canolfan Adnoddau Arbenigol neu Ysgol Arbennig) ac yn gofyn am barhad o'r math hwn o ddarpariaeth ar gyfer yr ysgol uwchradd, bydd adolygiad yn cael ei gynnal gan yr ysgol a bydd gwybodaeth yn cael ei chyflwyno i'r awdurdod lleol. Os ydych chi'n teimlo y gallai fod angen lleoliad arbenigol ar eich plentyn, siaradwch â'r Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn ysgol eich plentyn a fydd yn gallu esbonio'r broses.

Ceir rhagor o wybodaeth am y system ADY newydd a phrosesau ar wefan y cyngor https://www.caerdydd.gov.uk/ADY Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu ymholiadau ychwanegol ynglŷn â'r broses, cysylltwch â Llinell Gyngor a Chymorth ADY Caerdydd LlinellGymorthADY@caerdydd.gov.uk

---

## GALLAI EICH PLENTYN GERDDED, BEICIO NEU FYND AR FWS I'R YSGOL. YDYCH CHI WEDI YSTYRIED SUT Y BYDD YN CYRRAEDD YR YSGOL?

### OES TRAFNIDIAETH AM DDIM AR GAEL?

Darperir trafnidiaeth am ddim i ddisgyblion sy'n byw 3 milltir neu fwy o'r ysgol uwchradd agosaf sydd ar gael yn unig. Caiff hyn ei fesur o'ch cyfeiriad cartref i giât agosaf yr ysgol, a asesir trwy'r llwybr cerdded byrraf sydd ar gael.

Os bydd y lle ysgol agosaf sydd ar gael yn y dalgylch priodol ar gyfer cyfeiriad y cartref yn cael ei wrthod, neu os na wneir cais amdano gan riant/gwarcheidwad, yna ni fyddwch yn gymwys i gael trafnidiaeth am ddim beth bynnag y bo'r pellter i'r ysgol yr ydych wedi dewis anfon eich plentyn iddi.

I gael mwy o wybodaeth, gweler y Polisi Trafnidiaeth Ysgol: www.cardiff.gov.uk/schooltransportpolicy

## OS YDYCH AM WYBOD MWY AM WNEUD CAIS AM LE MEWN YSGOL UWCHRADD, EWCH I WWW.CAERDYDD.GOV.UK/DERBYNUWCHRADD NEU EWCH I'CH HYB LLEOL LLE GALL STAFF EGLURO MWY WRTHYCH CHI AM Y BROSES DDERBYN.

**Mae fideo ar gael sy'n esbonio'r broses (mewn 13 iaith) yn:** www.cardiff.gov.uk/help-to-apply